



Tasg ac amcanion rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd

Tasg y rhaglen

Tasg y Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd yw hwyluso gweddnewid plismona yng Nghymru i ymagwedd amlasiantaeth wedi ei hysbysu gan ACE sy'n galluogi ymyrraeth gynnar ac atal achosion gwreiddiol.

Felly beth sy'n cael ei wneud?

Yng Nghymru, rydym yn cefnogi staff yr heddlu, y carchardai a'r gwasanaeth prawf a phartneriaid ehangach er mwyn diwallu anghenion pobl fregus yn well gan ddefnyddio'r hyn a wyddom am ACE a thrawma i helpu pobl yn gynharach. Gelwir y rhaglen hon yn Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd.

Mae'r Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd yn ceisio gwneud hyn yn y ffyrdd canlynol:

1. Trwy hyfforddi swyddogion heddlu rheng flaen a staff carchardai a phrawf fel eu bod yn deall effaith ACE ac yn gallu adnabod pobl fregus (sydd wedi profi trawma yn eu plentyndod) a'u helpu i gael y cymorth sydd ei angen arnynt yn gynnar.
2. Gweithio gyda heddluoedd i sicrhau bod y modd y maent yn casglu gwybodaeth, strwythuro eu sefydliadau a datblygu eu pobl yn diwallu anghenion eu cymunedau.
3. Creu system 'Cymorth Cynnar' sy'n golygu, dim ots beth yw anghenion rhywun bregus - plismona, gofal cymdeithasol, iechyd, tai ayb. - byddant yn derbyn y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir, a bydd yr heddlu'n gwybod sut i ymateb ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos.
4. Ni all yr heddlu wneud hyn ar eu pennau eu hunain; mae angen iddynt weithio mewn partneriaeth â sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill. Bydd yr heddlu yn gweithio'n agos â phartneriaid o fewn eu hardaloedd heddlu lleol fel bod pawb wedi eu unioni ac yn gydgyssylltiedig wrth gwrdd ag anghenion pobl fregus a chefnogi gweledigaeth Cymru o fynd i'r afael ag ACE.

Mae rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd yn gobeithio gweld nifer o ganlyniadau o'r rhaglen, gan gynnwys:

- Gweithlu sy'n fwy ymwybodol o ACE, ac wedi ei hysbysu gan drawma, ar draws plismona a chyfiawnder troseddol.
- Yr heddlu yn gweithio'n agosach gyda phartneriaid statudol a thrydydd sector allweddol.
- Ymyrraeth gynharach gyda phobl fregus, gan eu harwyddo at wasanaethau perthnasol fel y gallwn eu helpu cyn i'w problemau gynyddu.

- Gostyngiad yn y galw cynyddol am blismona a phartneriaid - gan leihau y nifer o weithiau y daw'r un bobl yn ôl i gysylltiad â'r heddlu, a fydd, yn ei dro yn dirwyn y patrwm o weld materion pobl yn gwaethygu i droseddu lefel uchel i ben, a gobeithio, yn torri'r cylch troseddu cenedliadol / arwain at lai o bobl yn cael eu dal yn y system cyfiawnder troseddol.